INSHOU47

Datblygu trefniadau gweithio mewn partneriaeth a'u rheoli

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â datblygu perthnasoedd gwaith gyda sefydliadau eraill a'u rheoli. Gallai trefniadau gweithio mewn partneriaeth fod yn rhai mewnol neu allanol, anffurfiol neu ffurfiol a gallent fod â gwahanol ddibenion.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi cyfleoedd i ddatblygu perthnasoedd partneriaeth â sefydliadau eraill
2. esbonio natur eich sefydliad i ddarpar bartneriaid, gan gynnwys ei ddiben, ei ethos a'i arferion gwaith
3. gwneud cynigion i gydweithwyr a darpar bartneriaid ar ddiben a manteision trefniadau gweithio mewn partneriaeth
4. edrych ar unrhyw feysydd o wrthdaro posibl a gorgyffwrdd, a datblygu strategaethau, gweithdrefnau ac arferion i fynd i'r afael â nhw
5. trafod a datblygu trefniadau gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill
6. sefydlu systemau, gweithdrefnau a chytundebau i reoli perthnasoedd gweithio mewn partneriaeth
7. egluro a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau cydweithwyr sy'n ymwneud â threfniadau gweithio mewn partneriaeth
8. adolygu trefniadau gweithio mewn partneriaeth yn ôl yr amserlenni y cytunwyd arnynt
9. gweithredu a rheoli gwelliannau i drefniadau ac arferion gweithio mewn partneriaeth
10. cadarnhau bod arferion gweithio mewn partneriaeth yn cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau cyfreithiol, rheoliadol a sefydliadol perthnasol
11. cynorthwyo i reoli rolau a chyfrifoldebau'r unigolion a'r sefydliadau perthnasol sy'n ymwneud â'r trefniadau gweithio mewn partneriaeth
12. rhannu ac adrodd ar wybodaeth ar draws partneriaid o fewn canllawiau y cytunwyd arnynt

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. natur y sector rydych chi'n gweithio ynddo a gwahanol rolau a chyfrifoldebau sefydliadau perthnasol
2. yr ystod o drefniadau gweithio mewn partneriaeth sy'n berthnasol i'ch gwaith
3. y strwythurau a'r gweithdrefnau cyfathrebu yn eich sefydliad
4. y cytundebau ffurfiol ac anffurfiol sydd ar waith gyda sefydliadau perthnasol
5. sut i ddatblygu trefniadau gweithio gyda sefydliadau partner yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
6. y gofynion cyfreithiol a sefydliadol perthnasol o ran arferion gwrth-wahaniaethol, cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth yng nghyd-destun gweithio mewn partneriaeth
7. sut mae'n rhaid i'ch sefydliad gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol ym maes diogelu data
8. sut i reoli gwrthdaro ac anawsterau a allai godi wrth weithio gyda sefydliadau eraill
9. sut y gall gwahanol werthoedd ac arferion unigolion a sefydliadau effeithio ar drefniadau gweithio mewn partneriaeth
10. terfynau eich cyfrifoldebau eich hun a goblygiadau gweithredu y tu allan i'r terfynau hyn
11. y dulliau adolygu trefniadau gweithio mewn partneriaeth
12. pan fydd angen cynorthwyo cydweithwyr oherwydd anawsterau, problemau neu newidiadau mewn trefniadau gweithio mewn partneriaeth

INSHOU47

Datblygu trefniadau gweithio mewn partneriaeth a'u rheoli

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Instructus |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | Mawrth 2019 |
| **Indicative Review Date** | Ionawr 2024 |
| **Dilysrwydd** | ArHynOBryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Instructus |
| **RCU gwreiddiol** | ASTH416 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwy-ydd Cynnwys Preswylwyr; Cynorthwy-ydd Tai; Cynorthwy-ydd Cymdogaeth; Gweinyddwr Tai; Cynorthwy-ydd Gosod Eiddo; Rheolwr Portffolio Cynorthwyol (heb bortffolio); Trafodwr Gosod Llety; Cynorthwy-ydd Refeniw; Cynorthwy-ydd Atgyweirio |
| **Cyfres/Set** | Tai |
| **Geiriau Allweddol** | eiddo; ymchwilio; delio; torri cytundeb; llety; tenantiaeth; trwydded; lesddeiliad; cytundebau; cwsmeriaid; dogfennaeth; diogelwch; cymorth; deddfwriaeth; cydraddoldeb; amrywiaeth; diogel; trefnu; sefydlu; rheoli; datblygu; perthnasoedd; sefydliadau; |